## Charlotte Saluste-Bridoux



Yn 2021 roedd Charlotte yn enillydd gwobr yn YCAT (Llundain) a Chlyweliadau Rhyngwladol Concert Artists Guild (Efrog Newydd).

Fe'i henwebwyd yn Rising Star Artist 2022 gan Classic FM a'r tymor yma mae Charlotte yn gwneud ei début gyda'r Bournemouth Symphony Orchestra ac East of England Youth Orchestra.

Mae'n mynd yn ei hôl i Wigmore Hall yn unawdydd, Radio France yn Paris, ac i Ŵyl Cerddoriaeth Siambr Trondheim, lle'r enillodd y Quatuor Confluence Wobr Gyntaf yn y Gystadleuaeth yn 2021 a hithau'n flaenwr arno. Ymhellach draw mae'n gwneud ei début yng Ngŵyl Cerddoriaeth Siambr Awstralia ac yn 2024 yn unawdydd yn yr Unol Daleithiau.

Yn 2022 rhyddhaodd Champs Hill Records ei halbwm solo début *Ostinata* oedd yn fawr ei glod gan y beirniaid, a *Gramophone* yn ei disgrifio'n 'artist with something of her own to say'.

Dros y flwyddyn aeth heibio rhoes Charlotte ddatganiadau a pherfformio concerti ledled gwledydd Prydain gan gynnwys Suffolk Philharmonic Orchestra, Gwyliau Ryedale, Lake District Summer Music, Brighton a King's Lynn.

Mae'n gerddor siambr brwd a'i huchelfannau'n cynnwys ymddangosiadau yn y BBC Proms, a Gŵyl Gstaadt ochr yn ochr ag Alina Ibragimova, Lawrence Power, Sol Gabetta a Bertrand Chamayou.

Cymrodd ran yng Ngwyliau IMS Prussia Cove, East Neuk ac Evian ac ar hyn o bryd mae mewn preswyliad yn y Fondation Singer-Polignac yn Paris gyda Quatuor Confluence.

Cwblhaodd Charlotte ei gradd Meistr yn y Royal College of Music gydag Alina Ibragimova, wedi astudio cynt yn Montpellier, ac yn y Yehudi Menuhin School.

*Ar hyn o bryd mae Charlotte yn canu un o ffidlau Giovanni Battista Rogeri, ar fenthyg iddi'n garedig gan y sefydliad yn y Swistir Boubo-Music.*